Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Allech chi dalu llai o Dreth Gyngor?



Darllenwch y llyfryn hwn i weld a ydych chi'n gymwys i dalu llai o Dreth Gyngor.

Mawrth 2022

Codir Treth Gyngor ar bob cartref. Fel arfer, byddwch yn talu'r dreth os ydych dros 18 oed ac yn berchen ar eich cartref neu'n rhentu.

At ddibenion y Dreth Gyngor, ystyrir bod person 18 oed neu'n hŷn yn 'oedolyn'.

Gall yr amgylchiadau canlynol wneud rhywun yn gymwys i dalu llai o Dreth Gyngor.


| | |
|---|---|
| Aelwyd incwm isel | 3 |
| Pobl sydd ddim yn cael eu cyfrif ar gyfer y Dreth Gyngor | 4 |
| Ai chi yw'r person sy'n talu'r Dreth Gyngor? | 5 |
| Pwy arall sy'n byw gyda chi? | 5 |
| Myfyriwr | 6 |
| Nam Meddyliol Difrifol | 7 |
| Gofalu am rywun | 8 |
| Gadael gofal | 9 |
| Anabledd | 9 |
| Anecs | 10 |
| Eiddo gwag | 10 |
| Ôl-ddyddio | 10 |
| Help | 10 |
| Sut i wneud cais | 11 |

# Aelwyd Incwm Isel

Os yw'ch aelwyd chi ar incwm isel, gallech gael help i dalu rhan, neu'r cyfan, o'ch bil Treth Gyngor drwy'r **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**.

Os ydych yn gymwys i gael y budd-daliadau isod, a hyd yn oed os nad ydych yn eu derbyn, gallwch gael cymorth tuag at eich Bil Treth Gyngor:

- Lwfans Ceisio Gwaith.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Credyd Pensiwn.
- Cymhorthdal Incwm.

Os ydych chi'n tybio nad yw'ch bil chi wedi ei addasu ar gyfer hyn, gallwch gysylltu ag adran Treth Gyngor eich awdurdod lleol er mwyn iddynt eich asesu. Mae'n bosibl hefyd y cewch gymorth hyd yn oed os nad oes hawl gennych i'r budd-daliadau hyn.

I benderfynu a oes gennych hawl am ostyngiad, a faint fyddai hwnnw, bydd eich awdurdod lleol yn edrych ar eich incwm wythnosol a'ch cyfalaf. Bydd cyfalaf yn cynnwys cynilion ac eiddo.

Hefyd, bydd maint y gostyngiad yn dibynnu ar bwy sy'n byw gyda chi, eu hamgylchiadau personol, ac a ydych o oedran gweithio neu'n bensiynwr.

**Nid ydych** yn gymwys am ostyngiad os ydych:

- **O dan 65 oed ac â chyfalaf o £16,000 neu fwy.**
- **Dros 65 oed ac â chyfalaf o £16,000 neu fwy (oni bai eich bod chi neu'ch partner yn cael yr elfen Credyd Gwarant o'r Credyd Pensiwn).**

**Credyd Cynhwysol**

Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i wneud yn siŵr eu bod wedi eich asesu am ostyngiad yn eich Treth Gyngor.

**Darllenwch y llyfryn i weld a oes gostyngiadau ac eithriadau eraill yn berthnasol i chi a'ch aelwyd.**

## Dyma'r bobl sydd ddim yn cael eu cyfrif ar gyfer bil Treth Gyngor ar eiddo

- Person 17 oed neu iau.
- Person 18 oed y mae rhywun â hawl i gael Budd-dâl Plant ar ei gyfer.
- Person o dan 20 oed sydd wedi gadael yr ysgol neu goleg ar ôl 30 Ebrill yn y flwyddyn honno. (Ni chânt eu cyfrif ar gyfer Treth Gyngor tan 1 Tachwedd yn yr un flwyddyn, p'un a ydynt yn cymryd swydd neu beidio yn ystod y cyfnod hwnnw).
- Person sydd ar gynllun hyfforddiant y llywodraeth neu rai prentisiaethau.
- Myfyriwr llawn-amser, gan gynnwys myfyrwyr ar gwrs gohebu a chyrsiau ar-lein (Os taw dim ond myfyrwyr sy'n byw yn yr eiddo, bydd yr eiddo wedi ei eithrio'n llwyr o'r Dreth Gyngor. Gweler tudalen 6).
- Myfyriwr nyrsio.
- Cynorthwywyr Addysgu Iaith ar raglen swyddogol y British Council.
- Cymar, partner sifil neu ddibynnydd myfyriwr (nad yw'n Ddinesydd Prydeinig) sydd, o dan y rheolau mewnfudo, wedi'i atal rhag cymryd swydd neu hawlio budd-daliadau yn y DU.
- Person â diagnosis o nam meddyliol difrifol (gweler tud. 7 am esboniad o'r rhai sy'n gymwys).
- Person sy'n aros mewn rhai hostelau neu lochesi nos e.e. Hostel Byddin yr Iachawdwriaeth neu Hostel Byddin yr Eglwys.
- Person sy'n byw mewn hostel sy'n darparu gofal neu driniaeth am ei fod yn oedrannus, â nam corfforol neu feddyliol, â salwch meddwl yn y gorffennol neu'r presennol, neu ddibyniaeth ar alcohol/cyffuriau yn y gorffennol neu'r presennol.
- Gweithiwr gofal sy'n byw gyda'r cleient (gweler tud. 8 am esboniad o'r rhai sy'n gymwys).
- Person sydd yn y carchar neu wedi'i gadw dan glo am ei fod yn aros i gael ei allgludo neu wedi'i gadw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl.
- Rhywun sy'n byw mewn hostel fechnïaeth neu hostel brawf.
- Aelod o gymuned grefyddol.
- Aelod o lu arfog gwadd a'i ddibynyddion.
- Person sy'n gofalu llawn-amser am rywun heblaw gŵr, gwraig, partner neu blentyn o dan 18 (gweler tud. 8 am esboniad o'r rhai sy'n gymwys).
- Claf hirdymor sy'n cael triniaeth ac yn byw yn yr ysbyty.
- Person sy'n byw mewn cartref gofal, cartref nyrsio neu gartref nyrsio iechyd meddwl.
- Person sy'n gadael gofal.
- Diplomat.

# Ai chi yw'r person sy'n talu'r Dreth Gyngor?

Os ydych chi'n **byw ar ben eich hun** mae gennych hawl i ddisgownt o **25%** ar eich Treth Gyngor.

Os ydych chi'n **byw ar ben eich hun** ac yn cwympo i un o'r categorïau ar dudalen 4, gallech gael disgownt o **50%**.

Os ydych yn byw ar ben eich hun ac â nam meddyliol difrifol, cewch eich eithrio rhag talu'r Dreth Gyngor – gweler tudalen 7.

## Pwy arall sy'n byw yn yr eiddo gyda chi?

Os taw chi yw'r unig oedolyn sy'n byw yn yr eiddo gydag un neu fwy o bobl yn unrhyw un o'r categorïau ar dudalen 4, gallech gael disgownt o **25%**.

**Enghraifft:**

*Mae Siwan yn treulio 35 awr yr wythnos yn edrych ar ôl ei mab, Dafydd, sy'n oedolyn. Mae gan Dafydd anableddau dysgu difrifol ac mae hefyd yn gorfod defnyddio cadair olwyn. Mae Dafydd yn cael cyfradd ganolradd elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl ac mae wedi cael diagnosis meddygol o nam meddyliol difrifol. Mae gŵr Siwan, Mark, hefyd yn byw yn y tŷ ond nid yw'n treulio 35 awr yr wythnos yn edrych ar ôl Dafydd.*

*Am ei bod yn ofalwr, chaiff Siwan ddim ei hystyried am Dreth Gyngor. Ni chaiff Dafydd ei ystyried am fod arno nam meddyliol difrifol. Felly, ystyrir mai Mark yw'r unig breswyliwr yn yr eiddo, ac o ganlyniad rhoddir disgownt o 25% ar y bil Treth Gyngor. Hefyd, gan fod yr eiddo wedi ei addasu ar gyfer cadair olwyn Dafydd, bydd y bil Treth Gyngor yn cael ei ostwng o un band prisio –* *gweler tudalen 9.*

Os taw chi yw'r unig oedolyn sy'n byw yn yr eiddo gydag un neu fwy o bobl yn unrhyw un o'r categorïau ar dudalen 4, ac **os ydych chithau hefyd yn cwympo i un o'r categorïau**, gallech gael disgownt o **50%**.

**Enghraifft:**

*Mae John yn dioddef o dementia ac yn cael cyfradd uwch y Lwfans Gweini. Cafodd ddiagnosis meddygol o nam meddyliol difrifol. Mae'n byw gyda'i ferch, Eleri, a'i fab yng nghyfraith Rhys. Mae Eleri'n gofalu amdano am o leiaf 35 awr yr wythnos. Mae Rhys hefyd yn gofalu am John am 35 awr yr wythnos, yn y bore cyn mynd i'r gwaith, gyda'r nos ac ar y penwythnos. Mae gan Eleri a Rhys fab 13 oed a merch 15 oed sy'n byw gyda nhw.*

*Am eu bod yn ofalwyr, ni chaiff Eleri a Rhys eu hystyried am Dreth Gyngor. Ni chaiff John ei ystyried am fod arno nam meddyliol difrifol. Chaiff y ddau blentyn ddim eu hystyried chwaith, am eu bod o dan 18 oed. Mae pawb sy'n byw yn yr eiddo wedi'u eu diystyried felly. O ganlyniad, rhoddir disgownt o 50% ar y bil Treth Gyngor.*

## Myfyriwr

Os ydych chi'n fyfyriwr llawn amser, fydd **dim rhaid** ichi dalu'r Dreth Gyngor os ydych yn byw:

- **mewn fflat neu dŷ ar ben eich hun neu gyda dim ond myfyrwyr eraill**
- **mewn ystafell o fewn neuadd breswyl.**

Os ydych chi'n cwympo i un o'r categorïau hyn, ystyrir mai eich cyfeiriad yn ystod y tymor academaidd fydd eich prif breswylfa trwy gydol cyfnod eich cwrs. Felly, byddwch yn dal i fod wedi eich eithrio rhag talu'r Dreth Gyngor dros fisoedd yr haf.

Os ydych yn fyfyriwr llawn-amser sy'n byw gyda rhywun nad yw'n fyfyriwr, fyddwch chi ddim yn cael eich cyfrif ar gyfer Bil Treth Gyngor yr eiddo (gweler tudalen 4).

I gael eich ystyried yn fyfyriwr llawn-amser:

- rhaid i'ch cwrs gynnwys o leiaf 21 awr o astudio (neu gyfatebol) yr wythnos
- rhaid i'ch cwrs ofyn ichi fod yn bresennol am o leiaf 24 wythnos y flwyddyn.

neu

Rhaid ichi fod o dan 20 oed ac yn astudio am gymhwyster hyd at lefel A a rhaid i'ch cwrs:

- barhau am o leiaf 3 mis
- gynnwys o leiaf 12 awr o astudio yr wythnos.

neu

Rydych yn fyfyriwr rhyngwladol sydd:

- ddim yn ddinesydd Prydeinig
- wedi eich atal gan yr awdurdodau mewnfudo rhag cymryd swydd neu hawlio budd-daliadau yn y DU.

**Ni fydd myfyriwr nyrsio, prentis neu hyfforddai yn cael eu cyfrif ar fil Treth Gyngor eiddo. Gweler tudalen 4.**

# Nam Meddyliol Difrifol

Bydd unrhyw un sydd ag ardystiad meddygol bod ganddo nam difrifol deallusol neu gymdeithasol, yr ymddengys ei fod yn nam parhaol, yn gallu bod yn gymwys am ddisgownt ar ei Dreth Gyngor.

Mae clefyd Alzheimer, Parkinson, anawsterau dysgu difrifol, strôc a dementia yn gallu arwain at nam meddyliol difrifol, ond gall cyflyrau eraill ei achosi hefyd. I fod yn gymwys, rhaid i'r person â nam meddyliol difrifol **fod â hawl i un o'r budd-daliadau canlynol hefyd** (p'un a yw'n eu derbyn neu beidio):

- Budd-dal Analluogrwydd.
- Lwfans Gweini.
- Lwfans Anabledd Difrifol.
- Lwfans Byw i'r Anabl (cyfradd uwch neu ganolradd yr elfen gofal).
- Cynnydd yn y pensiwn anabledd (am fod angen gweini cyson).
- Lwfans Gweithio i'r Anabl.
- Cymhorthdal Incwm (sy'n cynnwys premiwm anabledd).
- Atodiad neu Lwfans i'r Anghyflogadwy.
- Lwfans Gweini Cyson.
- Taliad Annibyniaeth Personol.
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.
- Credyd Cynhwysol (mewn amgylchiadau pan fo gallu person i wneud gwaith a/neu weithgarwch cysylltiedig yn gyfyngedig).

Os ydych wedi cael diagnosis meddygol o nam meddyliol difrifol ac yn byw ar ben eich hun neu ddim ond gyda phobl eraill â nam meddyliol difrifol, cewch eich **eithrio** rhag talu'r Dreth Gyngor.

Os ydych wedi cael diagnosis o nam meddyliol difrifol ac yn byw gydag un oedolyn arall (nad yw ar y rhestr ar dud. 4), bydd eich aelwyd yn cael **disgownt o 25%.**

Os ydych wedi cael diagnosis o nam meddyliol difrifol ac yn byw gyda 2 neu fwy o oedolion fydd **dim gostyngiad** (os nad ydynt ar dudalen 4).

**Gweler hefyd 'person â diagnosis o nam meddyliol difrifol' ar dudalen 4.**

**Cofiwch y gellir cael y disgownt hwn yn ogystal â gostyngiad yn y band prisio, os yw hynny'n berthnasol. Gweler tudalen 9.**

**Ni chodir** Treth Gyngor ar anecs annibynnol pan fo'r person sy'n byw ynddo â nam meddyliol difrifol ac yn berthynas dibynnol ar berchennog y prif dŷ.

## Gofalu am rywun

I gael eich ystyried yn ofalwr at ddibenion y Dreth Gyngor rhaid ichi fodloni pob un o'r meini prawf canlynol:

- Rhaid ichi ddarparu gofal am o leiaf 35 awr yr wythnos.
- Rhaid ichi fyw yn yr un eiddo â'r person rydych yn gofalu amdano.
- Dydych chi ddim yn briod nac yn bartner i'r person rydych yn gofalu amdano, ac os ydych yn gofalu am blentyn o dan 18 oed, dydych chi ddim yn rhiant iddo.
- Rhaid i'r person rydych yn gofalu amdano fod â hawl i gael un o'r canlynol:
  - cyfradd uwch neu ganolradd yr elfen gofal o'r Lwfans Byw i'r Anabl
  - yr elfen bywyd beunyddiol o'r Taliad Annibyniaeth Personol, ar unrhyw gyfradd
  - y Lwfans Gweini, ar unrhyw gyfradd
  - Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
  - cyfradd uchaf y Lwfans Gweini Cyson.

Nid oes rhaid ichi hawlio'r Lwfans Gofalwr i fod yn gymwys am y disgownt hwn ac ni fydd eich incwm na'ch cynilion yn gwneud gwahaniaeth.

Gallech gael hyd at **50%** o ddisgownt fel gofalwr os yw pawb arall sy'n byw yn yr eiddo ar y rhestr ar dudalen 4. Mae'r un peth yn wir os oes 2 ofalwr yn yr eiddo.

Gallech gael **25%** o ddisgownt os ydych yn ofalwr a bod 1 person arall yn byw yn yr eiddo nad yw ar restr tudalen 4 (gweler yr enghreifftiau ar dudalen 5).

Os ydych yn ofalwr sy'n byw gyda 2 neu fwy o oedolion, fydd **dim gostyngiad** (os nad ydynt ar y rhestr ar dudalen 4).

**Cofiwch y gellir cael y disgownt hwn yn ogystal â gostyngiad yn y band prisio, os yw hynny'n berthnasol. Gweler tudalen 9.**

Os yw rhywun wedi gadael ei eiddo'n wag, ac nid yr eiddo hwnnw yw ei brif breswylfa bellach, mae'n bosibl na fydd rhaid iddo dalu'r Dreth Gyngor. Byddai hyn yn berthnasol i ofalwr sy'n byw gyda'r cleient ac yn rhoi gofal personol oherwydd henaint, anabledd, salwch, dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol neu anhwylder meddwl.

**Gweler hefyd yr adran 'Gweithiwr gofal sy'n byw gyda'r cleient' ar dudalen 4 ac 'Eiddo gwag' ar dudalen 10.**

## Gadael gofal

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth y gallwn i gefnogi'r rheini sy'n gadael gofal a chefnogi eu taith lwyddiannus i fod yn oedolion a byw'n annibynnol. Os ydych chi'n un sy'n gadael gofal, efallai y gallwch gael eich eithrio rhag talu'r dreth gyngor os yr ydych chi:

- Yn byw yng Nghymru.
- Yn 18 oed neu'n hŷn ond nid ydych yn 25 oed eto.

Yn 2019, cafodd unigolion sy'n gadael gofal cymwys dan 25 oed, sy'n byw yng Nghymru, eu heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor gan Lywodraeth Cymru.

Os oes un neu ragor o unigolion sydd wedi gadael gofal yn byw mewn cartref, neu os yw pob un sy'n byw yno naill ai wedi gadael gofal, yn fyfyriwr neu'n berson sydd â nam meddyliol difrifol, nid oes raid i'r cartref hwnnw dalu'r Dreth Gyngor.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau nad oes raid i unigolion sy'n gadael gofal cymwys sy'n byw mewn cartrefi gyda phobl eraill dalu'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2022.

## Anabledd

Os yw eich eiddo wedi ei addasu yn un neu fwy o'r ffyrdd a ddisgrifir isod i rywun ag anabledd sylweddol a pharhaol sy'n byw yn yr eiddo, bydd gennych hawl i gael **gostyngiad o un band prisio** yn eich Treth Gyngor, e.e. bydd eiddo Band C yn cael ei ystyried fel eiddo Band B.

- Ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol i ddiwallu anghenion y person anabl.
- Ystafell ychwanegol neu addasiad i ystafell (heblaw ystafell ymolchi, gegin neu doiled) i ddiwallu anghenion y person anabl ac i gael ei defnyddio yn bennaf ganddo.
- Gofod ychwanegol tu mewn i'r adeilad er mwyn gallu defnyddio cadair olwyn.

I gael gostyngiad yn y band prisio, rhaid i'r addasiadau fod yn hanfodol neu'n hollbwysig i les person anabl. Ni roddir gostyngiad am addasiadau a wnaed tu allan i'r eiddo yn unig.

**Cofiwch, gall y gostyngiad hwn gael ei gyfuno â disgowntiau eraill. Gall tudalennau eraill y llyfryn hwn fod yn berthnasol i chi. Gweler yr enghreifftiau ar dudalen 5.**

## Anecs

**Ni chodir** Treth Gyngor ar anecs annibynnol pan fo'r person sy'n byw ynddo â nam meddyliol difrifol ac yn berthynas dibynnol ar berchennog y prif dŷ.

- Rhaid i'r dibynnydd fod:

  yn 65 neu'n hŷn, neu wedi cael diagnosis meddygol o nam meddyliol difrifol neu ag anabledd sylweddol a pharhaol.

## Eiddo gwag

Pan fo eiddo gwag yn cael ei werthu wedi marwolaeth y perchennog, bydd yr eiddo wedi ei **eithrio** rhag Treth Gyngor am 6 mis ar ôl y Grant Profiant.

Fydd rhai cartrefi ddim yn cael bil Treth Gyngor tra byddant yn aros yn wag. Er enghraifft, cartref gwag:

- rhywun sydd yn y carchar
- rhywun sydd wedi mynd i fyw mewn cartref gofal neu ysbyty
- sydd wedi'i adfeddiannu
- nad oes hawl preswylio ynddo yn ôl y gyfraith
- sydd heb breswyliwr na dodrefn ynddo am hyd at 6 mis.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael disgownt ar y Dreth Gyngor am hyd at 12 mis os yw'ch cartref yn cael gwaith atgyweirio mawr neu newidiadau strwythurol mawr.

## Ôl-ddyddio

Siaradwch â'ch awdurdod lleol os ydych yn tybio y gellid ôl-ddyddio eich gostyngiad, disgownt neu eithriad Treth Gyngor.

## Help

Os ydych yn cael trafferth talu eich bil Treth Gyngor, gallwch gael help a chyngor yn eich swyddfa leol Cyngor ar Bopeth. Maen nhw'n rhoi cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ac mae rhai yn cynnig ymweld â'ch cartref neu'n rhoi cyngor dros ebost.

Cewch fanylion eich swyddfa leol yma:

**www.citizensadvice.org.uk** ffôn: **03444 77 20 20**
neges destun: **03444 11 14 45**

Ceir cyngor ar ddyledion gan:

**www.stepchange.org** ffôn: **0800 138 1111**
**www.nationaldebtline.org** ffôn: **0808 808 4000**

Hefyd, rhoddir gwybodaeth am y Dreth Gyngor ar:

**www.moneysavingexpert.com**

## Sut i wneud cais am ddisgownt neu ostyngiad Treth Gyngor

Awdurdodau Lleol Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r Dreth Gyngor. Os ydych yn tybio y gallech fod yn gymwys am ddisgownt neu ostyngiad Treth Gyngor, dylech gysylltu ag adran Treth Gyngor eich Awdurdod Lleol yn uniongyrchol ar y rhifau canlynol:

| | |
|---|---|
| Abertawe | Ffôn: **01792 635382** (Disgowntiau Treth Gyngor – Eithriadau)<br>**01792 635353** (Gostyngiadau Treth Gyngor – ar sail Incwm/Cyfalaf) |
| Blaenau Gwent | Ffôn: **01495 355212** |
| Bro Morgannwg | Ffôn: **01446 709564** (Gwybodaeth am y Dreth Gyngor)<br>**01446 709244** (Gwybodaeth am ostyngiadau Treth Gyngor) |
| Caerdydd | Ffôn: **029 2087 2088** (Cymraeg)<br>**029 2087 2087** (Saesneg) |
| Caerfyrddin | Ffôn: **01554 742200** (Gwybodaeth am y Dreth Gyngor)<br>**01554 742100** (Gwybodaeth am ostyngiadau Treth Gyngor) |
| Caerffili | Ffôn: **01443 863002** (Gwybodaeth am y Dreth Gyngor)<br>**01443 864099** (Gwybodaeth am ostyngiadau Treth Gyngor) |
| Casnewydd | Ffôn: **01633 656656** |
| Castell-nedd Port Talbot | Ffôn: **01639 686838** |
| Ceredigion | Ffôn: **01970 633252** |

| | | |
|---|---|---|
| Conwy | Ffôn: | **01492 576607** (Disgowntiau Treth Gyngor – Eithriadau)<br>**01492 576491** (Gostyngiadau Treth Gyngor – ar sail Incwm/Cyfalaf) |
| Gwynedd | Ffôn: | **01286 682689** |
| Merthyr Tudful | Ffôn: | **01685 725000** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Ffôn: | **01656 643391** (Gwybodaeth am y Dreth Gyngor)<br>**01656 643396** (Gwybodaeth am ostyngiadau Treth Gyngor) |
| Powys | Ffôn: | **01597 827463** (Gwybodaeth am y Dreth Gyngor)<br>**01597 827462** (Gwybodaeth am ostyngiadau Treth Gyngor) |
| Rhondda Cynon Taf | Ffôn: | **01443 425002** |
| Sir Benfro | Ffôn: | **01437 764551** |
| Sir Ddinbych | Ffôn: | **01824 706000** |
| Sir y Fflint | Ffôn: | **01352 704848** |
| Sir Fynwy | Ffôn: | **01633 644630** |
| Torfaen | Ffôn: | **0300 456 3559** |
| Wrecsam | Ffôn: | **01978 298992** |
| Ynys Môn | Ffôn: | **01248 750057** |

Mae'r cyfeiriadau ebost a'r rhifau ffôn ar **llyw.cymru/talu-llai-o-dreth-gyngor** hefyd.

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar gais mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru
WG44702 ISBN digidol 978-1-80391-815-0 ISBN Argraffu 978-1-80391-814-3